
Cam cyntaf rheoleiddio diogelwch ar-lein

Cais am dystiolaeth

CAIS AM DYSTIOLAETH:

Dyddiad cyhoeddi: 6 Gorffennaf 2022

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 13 Medi 2022

Cynnwys

Adrannau

1. Trosolwg o'r cais am dystiolaeth	1
-------------------------------------	---

Atodiau

A1. Cwestiynau'r Cais am Dystiolaeth	5
A2. Troseddau â blaenoriaeth	23
A3. Ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth	32
A4. Dalen gyflwyno ymateb	34

1. Trosolwg

Cefndir

- 1.1 Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau cydgyfeiriol y DU, ac mae'n goruchwylio sectorau sy'n cynnwys telathrebu, y post, teledu a radio a ddarllidir. Rydym yn rheoleiddio gwasanaethau fideo ar-lein sydd wedi'u sefydlu yn y DU, gan gynnwys Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw (ODPS) a Llwyfannau Rhannu Fideos (VSPs). Yn unol â'n dyletswyddau statudol, mae gennym raglen waith yn benodol ar gyfer hyrwyddo a chynnal ymchwil ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.
- 1.2 Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwriadu penodi Ofcom yn rheoleiddiwr ar gyfer diogelwch ar-lein yn y DU. Ers hynny, rydym wedi bod yn gweithio i ddatblygu ein dealltwriaeth o gyfleoedd a heriau rheoleiddio diogelwch ar-lein, meithrin ein gallu mewnol a dechrau cynllunio ar gyfer ein dull rheoleiddio. Ers mis Rhagfyr 2021, rydym wedi bod yn cael arian gan y Llywodraeth i ddatblygu a chryfhau ein gallu i baratoi ar gyfer y rôl newydd hon, gan gynnwys creu tîm Polisi Diogelwch Ar-lein newydd, swyddogaeth Technoleg Ymddiriedaeth a Diogelwch newydd, a thyfu ein timau Gorfodaeth, Cyfreithiol, Ymchwil a Dealltwriaeth, a Data. Cyflwynwyd y [Mesur Diogelwch Ar-lein](#), a fydd yn rhoi pwerau rheoleiddio newydd i Ofcom, i'r Senedd ar 17 Mawrth 2022. Rydym yn gweithio'n galed i baratoi ar gyfer ein rôl newydd, ac yn edrych ymlaen at barhau i ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu ein polisiau a'n cynlluniau.
- 1.3 Rydym wedi bod yn defnyddio ein profiad o reoleiddio llwyfannau rhannu fideos, gan fod gennym bwerau i wneud hynny yn barod o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd sydd wedi'i throosi. Rydym hefyd yn parhau i feithrin cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau a rheoleiddwyr yn y DU (er enghraifft, drwy'r [Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#)) ac mewn awdurdodaethau eraill, a chymryd rhan mewn sgysiau a fforymau byd-eang sy'n chwilio am atebion i broblemau diogelwch ar-lein.
- 1.4 Ochr yn ochr â'r cais hwn am dystiolaeth, rydym hefyd wedi [cyhoeddi map](#) sy'n nodi ein meddyliau presennol ynghylch ein cynlluniau ar gyfer rhoi rheoliadau diogelwch ar-lein ar waith.

Y Mesur Diogelwch Ar-lein

- 1.5 Bydd y Mesur Diogelwch Ar-lein, fel y mae ar hyn o bryd, yn mynnu bod gan wasanaethau sy'n rhoi lle i gynnwys sydd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddwyr a pheiriannau chwilio systemau a phrosesau ar gyfer diogelu unigolion rhag mathau penodol o niwed ar-lein, ac yn mynnu bod darparwyr pornograffi yn sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu dod ar draws cynnwys pornograffig.
- 1.6 Mae'n darparu ar gyfer nifer o ddyletswyddau newydd ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, sydd wedi'u nodi'n fanylach yn ein map. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau i wneud y canlynol:

- a) Asesu risgiau i'w gwasanaethau a chael systemau a phrosesau cymesur i ddiogelu defnyddwyr ac unigolion rhag cynnwys anghyfreithlon;
- b) Rhoi mesurau diogelu ychwanegol ar waith ar gyfer plant, a ddiffinnir fel unrhyw un dan 18 oed, yn erbyn cynnwys sy'n niweidiol iddyn nhw;
- c) Sicrhau bod gan wasanaethau 'Categori 1' eu telerau ac amodau eu hunain ar fathau penodol o gynnwys sy'n 'gyfreithiol ond yn niweidiol' i oedolion, a sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso'n gyson;¹
- d) Sicrhau bod gan wasanaethau 'Categori 1' a 'Categori 2a' systemau a phrosesau cymesur i atal hysbysebion twyllodrus;²
- e) Sicrhau bod gwasanaethau 'Categori 1' a 'Categori 2b' yn cyhoeddi adroddiadau ar achosion o gynnwys anghyfreithlon a niweidiol ar eu gwasanaethau;³ a
- f) Rhoi sylw i bwysigrwydd diogelu rhyddid mynegiant a phreifatrwydd defnyddwyr. Byddai gan wasanaethau 'Categori 1' ddyletswyddau estynedig yn y maes hwn, gan gynnwys cynnal asesiad o effaith.

1.7 Bydd y rheoliad newydd yn berthnasol i ystod eang o wasanaethau chwilio a defnyddwyr i ddefnyddwyr, gyda chyrrhaeddiad, meintiau a lefelau risg gwahanol. Bydd y gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, llwyfannau rhannu fideos, fforymau, apiau negeseuon, rhai gemau ar-lein, storio yn y cwmwl a safleoedd sy'n rhoi lle i gynnwys pornograffig. Mae rhagor o fanylion ynghylch cwmpas y drefn ar gael [yn ein map](#).

1.8 O dan y Mesur Diogelwch Ar-lein, bydd Ofcom yn cael pwerau casglu gwybodaeth a gorfodaeth, gan gynnwys pwerau i roi dirwyon sylweddol. Mae'n rhaid i Ofcom lunio amrywiaeth o gyhoeddiadau sy'n sefydlu'r fframwaith newydd, gan gynnwys asesiad risg y sector (gan gynnwys proffiliau risg), canllawiau asesu risg ar gyfer y diwydiant, codau ymarfer sy'n amlinellu'r camau y gall cwmnïau eu cymryd i gydymffurfio â'u dyletswyddau, a chanllawiau rheoleiddio eraill, mewn meysydd sy'n cynnwys adrodd ar dryloywder ac asesiadau mynediad plant.

Ein Cais am dystiolaeth

1.9 Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn canolbwyntio ar y materion rydym yn disgwyl fydd yn cael eu cynnwys yn ein hymgyngoriad cyntaf yn 2023, fel y nodir yn fanylach ar ein map. Felly, mae'r ffocws ar asesu'r risg o niwed o gynnwys anghyfreithlon, mesurau lliniaru yn ymwneud â chynnwys anghyfreithlon, asesiadau mynediad plant a gofynion tryloywder.

¹ Gwasanaethau Categori 1 yw'r gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr sydd â'r cyrrhaeddiad uchaf ac â'r swyddogaethau risg uchaf, gyda gofynion tryloywder, dyletswydd i asesu risgiau i oedolion o gynnwys cyfreithlon ond niweidiol, gofynion sy'n ymwneud â hysbysebion twyllodrus ac amrywiaeth o ddyletswyddau eraill.

² Gwasanaethau Categori 2a yw'r gwasanaethau chwilio sydd â'r cyrrhaeddiad uchaf, gyda gofynion tryloywder a hysbysebion twyllodrus.

³ Mae gwasanaethau Categori 2b yn wasanaethau eraill gyda swyddogaethau neu ffactorau eraill a allai fod yn beryglus, gyda gofynion tryloywder, ond dim dyletswyddau ychwanegol eraill.

Rydym yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi Cais arall am Dystiolaeth ar gynnwys cyfreithiol ond niweidiol a fydd, fel y nodir yn fanylach ar ein map, yn cael ei gyflwyno'n raddol yn ddiweddarach yn dilyn is-ddeddfwriaeth.

- 1.10 Drwy'r cwestiynau a nodir yn [Atodiad 1](#), rydym yn gofyn am dystiolaeth gan amrywiaeth eang o randdeiliaid i gryfhau ein dealltwriaeth o'r ystod o ddulliau a thechnegau y gall llwyfannau eu defnyddio i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau diogelwch ar-lein. Byddem yn croesawu tystiolaeth o effeithiolrwydd y mesurau y gellir eu rhoi ar waith i liniaru niwed, eu costau a pha mor ymarferol fyddai eu rhoi ar waith – a lle bo hynny'n berthnasol ystyried sut y gallai hyn amrywio yn dibynnu ar nodweddion y gwasanaeth.
- 1.11 Hoffem glywed gan ddarparwyr y mae eu gwasanaethau'n debygol o ddod o dan gwmpas y fframwaith Diogelwch Ar-lein, o'r ystod lawn o wasanaethau sydd yn y cwmpas, yn ogystal â rheoleiddwyr, academyddion, sefydliadau cymdeithas sifil, cynrychiolwyr defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb ac arbenigedd yn y maes hwn. Hoffem glywed gan fusnesau, sefydliadau a grwpiau sy'n gallu darparu tystiolaeth ynghylch y cwestiynau yn [Atodiad 1](#). Rydym wedi nodi pan fydd ein cwestiynau wedi'u hanelu at yr holl randdeiliaid, a phan fyddan nhw wedi'u hanelu'n bennaf at ddarparwyr gwasanaethau, gan eu bod yn gofyn am wybodaeth am arferion cyfredol, costau a metrigau asesu.
- 1.12 Rydym yn rhagweld y bydd y dystiolaeth a ddarperir mewn ymateb i hyn yn werthfawr wrth baratoi adroddiadau a chynlluniau i'r dyfodol o dan ein pwerau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac, ar yr amod bod y Mesur Diogelwch Ar-lein yn cael ei basio, bydd yn ddefnyddiol o ran llywio sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau. Mae'r rhain yn cynnwys llunio codau ymarfer a chanllawiau rheoleiddio a fydd yn nodi'r camau y gall cwmnïau eu cymryd i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Bil. Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn un rhan o'n paratoadau ar gyfer ysgwyddo ein dyletswyddau newydd, ochr yn ochr â rhaglen ymchwil ehangach ac ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid.
- 1.13 Gan ein bod yn edrych ar y ffyrdd y gall gwasanaethau gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Bil, sydd eto i'w gymeradwyo gan y Senedd, ni ddylid ystyried y ddogfen hon na'n cwestiynau yn arwydd na'n ddatganiad o fwriad y polisi, ond yn hytrach yn gyfle i gyfrannu.

Y camau nesaf

- 1.14 Bydd ein Cais am Dystiolaeth yn agored am 10 wythnos ar ôl ei gyhoeddi ac rydym yn gofyn am ymatebion yn ôl erbyn 5pm ar 13 Medi 2022.
- 1.15 Ni fydd Ofcom yn cael unrhyw bwerau newydd nes bydd y Bil Diogelwch Ar-lein wedi cael Cydsyniad Brenhinol. Mae rhagor o fanylion am ein cynllun ar gyfer ymgynghori a gweithredu ar gael [ar ein map](#).
- 1.16 Mae ein dyletswyddau presennol yn golygu bod yn rhaid i ni ymgynghori'n eang ynghylch unrhyw gynigion neu benderfyniadau sy'n diwygio neu'n rhoi rhwymedigaethau rheoleiddio newydd ar waith. Rydym yn credu y bydd cymhlethdod a newyddwch y drefn reoleiddio newydd hon yn elwa o ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid. Y Cais hwn am Dystiolaeth ydy ein cyfle ffurfiol cyntaf i wneud hyn cyn ein hymgynghoriad yn 2023, ac

edrychwn ymlaen at barhau i ymgysylltu'n agos wrth i ni ddatblygu ein polisiau a'n cynlluniau.

A1. Cwestiynau'r cais am dystiolaeth

- A1.1 Rydym yn gofyn am dystiolaeth i gryfhau ein dealltwriaeth o'r ystod o ddulliau a thechnegau y gall llwyfannau eu defnyddio i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau arfaethedig o dan y [Mesur Diogelwch Ar-lein](#) ('y Mesur').
- A1.2 Yn unol â'r cynllun sydd wedi'i nodi [ar ein map](#), bydd cam cyntaf ein gwaith yn canolbwyntio'n helaeth ar y dyletswyddau sy'n ymwneud â chynnwys anghyfreithlon. Pan fyddwn yn cyfeirio at 'gynnwys anghyfreithlon' yn y cwestiynau isod, rydym yn golygu cynnwys anghyfreithlon â 'blaenoriaeth' a heb flaenoriaeth fel y'i diffinnir gan y Mesur. Rhestrir troseddau â 'blaenoriaeth' yn Atodlen 5 (Terfysgaeth), 6 (Cam-drin a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant) a 7 (troseddau eraill) y Bil, sy'n cwmpasu'r troseddau a ganlyn yn fras:
- a) terfysgaeth;
 - b) cam-drin a chamfanteisio ar blant;
 - c) annog neu gynorthwyo hunanladdiad;
 - d) bygythiadau i ladd;
 - e) troseddau trefn gyhoeddus, aflonyddu, stelcio ac achosi ofn o drais neu gythruddo trais;
 - f) cyffuriau a sylweddau seicoweithredol;
 - g) drylliau ac arfau eraill;
 - h) helpu mewnfudo anghyfreithlon;
 - i) camfanteisio rhywiol;
 - j) delweddau rhywiol anghyfreithlon, gan gynnwys pornograffi eithafol a datgelu lluniau rhywiol preifat gyda'r bwriad o achosi trallod;
 - k) elw troseddau gan gynnwys, er enghraifft, cuddio a hwyluso caffael eiddo troseddol;
 - l) twyll; a
 - m) gwasanaethau ariannol gan gynnwys, er enghraifft, honiadau ffug i fod ag awdurdod o dan y Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol.
- A1.3 Rydym wedi nodi'r troseddau hyn yn llawn yn [Atodiad 2](#). Mae troseddau nad ydynt yn flaenoriaeth yn droseddau eraill nad ydynt wedi'u nodi yn y Bil, lle mae'r dioddefwr neu'r dioddefwr a fwriadwyd yn unigolyn.⁴
- A1.4 Rhennir ein cwestiynau yn adrannau, gyda phob un yn ymwneud ag elfen o'r fframwaith rheoleiddio newydd a gynigir gan y Bil. O dan bob cwestiwn, rydym wedi nodi

⁴ Ac eithrio troseddau sy'n ymwneud â thorri hawliau eiddo deallusol, diogelwch neu ansawdd nwyddau, rhywun nad yw'n gymwys i gyflawni gwasanaeth yn ei gyflawni; neu droseddau o dan Reoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008 (O.S. 2008/1277).

awgrymiadau i ymhelaethu ar y meysydd y mae gennym ddiddordeb arbennig ynddynt. Nid oes yn rhaid i chi ymateb i bob cwestiwn neu awgrym. Pan fydd ein cwestiynau wedi'u targedu at ddarparwyr gwasanaethau ar-lein, rydym wedi nodi hynny. Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ymatebion; atebion rhesymegol sy'n cynnwys tystiolaeth glir fyddai'n fwyaf gwerthfawr er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r cwestiynau isod.

- A1.5 Ein trefn arferol yw cyhoeddi fersiynau heb fod yn gyfrinachol o'r ymatebion ar ein gwefan. Felly, dylech nodi a yw eich ymateb neu ran ohono yn gyfrinachol, lle bo angen. Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Trowch at [Atodiad 3](#) i gael rhagor o gyfarwyddiadau ynghylch cyflwyno ymateb.
- A1.6 Os ydych chi'n fusnes, yn sefydliad neu'n grŵp ag arbenigedd a thystiolaeth berthnasol yn gysylltiedig â'r cwestiynau isod, ac yn dymuno cysylltu â ni ynglŷn â'r Cais hwn am Dystiolaeth, cysylltwch â OS-CFE@ofcom.org.uk

Cwestiwn rhagarweiniol

- A1.7 Mae ein cwestiwn cyntaf yn gofyn i ymatebwyr am wybodaeth amdany'n nhw eu hunain er mwyn i ni allu categoreiddio ymatebion i gwestiynau diweddarach.
- A1.8 Mae'r Mesur yn berthnasol i ystod eang o 'wasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr', a ddiffinnir fel 'gwasanaeth rhyngwyd lle bydd cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu'n uniongyrchol ar y gwasanaeth gan ddefnyddiwr y gwasanaeth, neu'n cael ei lwytho i fyny neu ei rannu ar y gwasanaeth gan ddefnyddiwr y gwasanaeth, yn gallu cael ei weld gan ddefnyddiwr arall, neu ddefnyddwyr eraill, y gwasanaeth'. Bydd hefyd yn berthnasol i wasanaethau chwilio, a ddiffinnir fel 'gwasanaeth rhyngwyd sy'n beiriant chwilio, neu sy'n cynnwys peiriant chwilio'. Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswyddau ar ddarparwyr cynnwys pornograffig, a ddiffinnir fel gwasanaethau sy'n cyhoeddi neu'n arddangos deunydd a gynhyrchir yn bennaf at ddibenion cyffroi pobl yn rhywiol. Bydd dyletswyddau newydd ar gyfer unrhyw wasanaeth sydd â nifer sylweddol o ddefnyddwyr yn y DU neu sydd wedi'i dargedu at farchnad y DU, a rhaid i'r rhain gydymffurfio â'r gyfraith newydd.

Ar gyfer pawb sy'n ymateb

C1. Rhowch ddisgrifiad sy'n cyflwyno eich sefydliad, gwasanaeth neu ddiddordeb mewn Diogelwch Ar-lein.

Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein, rhowch wybodaeth am y canlynol:

- Y math o wasanaeth a swyddogaethau a ddarperir gennych;⁵
- Nifer y defnyddwyr yn fyd-eang, ac yn y DU;
- Refeniw byd-eang a'r DU; a
- Modelau eich busnes a'r refeniw a gynhrychir.

Nodwch a yw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol.

Asesu a rheoli risg

- A1.9 Bydd asesu a rheoli risg yn un o gonglfeini'r drefn ac mae'n un o ofynion craidd y Mesur. Mae Rhan 7, Pennod 3 y Bil yn nodi'r gofynion sydd ar Ofcom i gynnal asesiad risg i ganfod ac asesu risgiau o niwed i unigolion wrth ddefnyddio gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr, ac i nodi ac asesu nodweddion gwahanol fathau o wasanaethau sy'n berthnasol i'r risgiau hynny. Rhaid i Ofcom ddatblygu 'proffiliau risg' ar gyfer gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr sy'n ymwneud â'r risgiau o niwed. Rhaid i Ofcom gyhoeddi ei asesiad risg (mewn cofrestr risgiau) a phroffiliau risg, a sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau.
- A1.10 Yn ogystal â chodau ymarfer sy'n nodi'r camau a argymhellir ar gyfer cydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch, mae'n rhaid i Ofcom baratoi a chyhoeddi canllawiau ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio er mwyn eu helpu i gydymffurfio â'u dyletswyddau i gynnal eu hasesiadau risg eu hunain. Wrth gynnal eu hasesiadau risg, mae'n rhaid i wasanaethau ystyried y proffiliau risg y mae Ofcom wedi'u paratoi.

⁵ O fewn y Mesur, mae 'swyddogaethau' gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr yn cynnwys: creu proffil defnyddwyr, gan gynnwys proffil dienw neu ffugenwol; chwilio o fewn y gwasanaeth am gynnwys sydd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddwyr neu ddefnyddwyr eraill; anfon cynnwys ymlaen neu rannu cynnwys â defnyddwyr eraill y gwasanaeth; rhannu cynnwys ar wasanaethau rhyngwryd eraill; anfon negeseuon uniongyrchol at ddefnyddwyr eraill y gwasanaeth, neu siarad â nhw, neu ryngweithio â nhw mewn ffordd arall (er enghraifft drwy chwarae gêm); mynegi barn ynghylch cynnwys, gan gynnwys, er enghraifft, drwy bwyso botwm "hoffi" neu "ddim yn hoffi" neu unrhyw fotwm arall tebyg, defnyddio emoji neu symbol o unrhyw fath, manteisio ar gyfleoedd i bleidleisio ie/na neu sgorio cynnwys mewn unrhyw ffordd (gan gynnwys rhoi seren neu sgôr rhifol); rhannu gwybodaeth am leoliad presennol neu hanesyddol gyda defnyddwyr eraill y gwasanaeth, cofnodi symudiadau defnyddiwr, neu ganfod pa ddefnyddwyr eraill y gwasanaeth sydd gerllaw; dilyn neu danysgrifio i fathau penodol o gynnwys neu ddefnyddwyr penodol y gwasanaeth; creu rhestrau, casgliadau, archifau neu gyfeiriaduron o gynnwys neu ddefnyddwyr y gwasanaeth; tagio neu labelu cynnwys sydd ar y gwasanaeth; llwytho cynnwys i fyny sy'n ymwneud â nwyddau neu wasanaethau; defnyddio neu newid gosodiadau ar y gwasanaeth sy'n effeithio ar y ffordd mae cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr yn cael ei gyflwyno ar y gwasanaeth; cael mynediad at wasanaethau rhyngwryd eraill drwy'r cynnwys sydd ar y gwasanaeth (er enghraifft, drwy hyperddolenni). Mae 'swyddogaethau' gwasanaethau chwilio yn cynnwys: nodwedd sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio gwefannau neu gronfeydd data; a nodwedd sy'n cynnig awgrymiadau yn ymwneud â cheisiadau chwilio defnyddwyr (swyddogaeth chwilio rhagfynegol).

Ar gyfer pawb sy'n ymateb

C2. Allwch chi ddarparu unrhyw dystiolaeth sy'n ymwneud â phresenoldeb neu faint o gynnwys anghyfreithlon sydd ar wasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr? Mae gennym ddi-ddordeb mewn dogfennau briffio, ymchwiliadau, adroddiadau tryloywder, ymchwiliadau cyfryngau a phapurau ymchwil sy'n rhoi mwy o dystiolaeth am sut y gallai cynnwys o'r fath amrywio ar draws gwahanol wasanaethau neu fathau o wasanaeth, neu ar draws gwasanaethau gyda grwpiau penodol o ddefnyddwyr, nodweddion neu swyddogaethau.

PWYSIG: O dan yr adran hon NID ydym yn ceisio dolenni at neu gopiâu/sgrinluniau o gynnwys sy'n anghyfreithlon, megis cam-drin plant yn rhywiol. Gall edrych ar ddelweddau o'r fath yn fwriadol fod yn drosedd a bydd yn cael ei adrodd i'r heddlu.

Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

C3. Ar hyn o bryd sut ydych chi'n asesu'r risg o niwed i unigolion yn y DU o gynnwys anghyfreithlon a gyflwynir gan eich gwasanaeth?

Rhowch wybodaeth am y canlynol:

- sut mae risgiau o gynnwys anghyfreithlon yn cael eu nodi (gan gynnwys unrhyw brosesau, polisïau a dogfennau mewnol perthnasol);
- i ba raddau rydych chi'n edrych ar dystiolaeth o ymddygiad ac oedran defnyddwyr wrth ystyried risgiau posibl; a'r
- ffactorau risg sy'n dwysau ac yn lliniaru rydych chi'n eu hystyried (er enghraifft, mewn perthynas â'ch **defnyddwyr, model busnes** neu **nodweddion a swyddogaethau** a allai gael effaith ar y risg o niwed).

C4. Beth yw eich strwythurau llywodraethu, atebolrwydd a gwneud penderfyniadau ar gyfer diogelwch y defnyddwyr a'r llwyfan?

Fel rhan o'ch ateb, a fydddech cystal ag amlinellu sut gallai timau gwahanol ystyried risgiau i ddiogelwch defnyddwyr ar draws gwahanol swyddogaethau busnes fel datblygu cynnyrch, rheolaeth, peirianeg, polisi cyhoeddus, diogelwch, cyfreithiol, datblygu busnes a marchnata.

Ystyriwch:

- Sut mae risgiau i ddiogelwch defnyddwyr yn cael eu huwchgyfeirio a sut y gweithredir arnyn nhw yn eich sefydliad? Pa drefniadau goruchwylio sydd ar waith gan uwch reolwyr?
- Sut mae staff yn cael eu hyfforddi i ddeall sut gall eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain o bosibl greu risgiau i ddiogelwch defnyddwyr?
- Sut ydych chi'n sicrhau cysondeb wrth ystyried diogelwch defnyddwyr ar draws y timau?

Telerau gwasanaeth a datganiadau polisi

A1.11 Mae'r Bil yn gosod nifer o ddisgwyliadau mewn perthynas â thelerau gwasanaeth y gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr sy'n cael eu rheoleiddio, gan gynnwys ymdrin â mathau penodol o gynnwys, fel cynnwys anghyfreithlon â blaenoriaeth, a mesurau, fel defnyddio technoleg ragweithiol. Disgwylir hefyd i'r telerau gwasanaeth fod yn glir ac yn hygyrch i ddefnyddwyr, ac iddyn nhw gael eu defnyddio'n gyson. Bydd yn ofynnol i wasanaethau chwilio amlinellu darpariaethau tebyg mewn datganiadau polisi cyhoeddus.

Ar gyfer pawb sy'n ymateb

C5. Beth all darparwyr gwasanaethau ar-lein ei wneud i wella eglurder a hygyrchedd telerau gwasanaeth a datganiadau polisi cyhoeddus?

Cyflwynwch dystiolaeth i ddangos pa nodweddion sy'n gwneud y telerau neu'r polisiau'n glir ac yn hygyrch.

Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

C6. Sut mae eich telerau gwasanaeth neu ddatganiadau polisi cyhoeddus yn trin cynnwys anghyfreithlon? Sut mae'r telerau gwasanaeth hyn yn cael eu cynnal a faint o adnoddau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer hyn?

Amlinellwch y canlynol fel rhan o'ch ateb:

- Yr hyn rydych chi'n ei gynnwys ar hyn o bryd yn eich dogfennau polisi cyhoeddus a thelerau gwasanaeth yng nghyswllt cynnwys anghyfreithlon a pham, gan gynnwys unrhyw gyfeiriad at yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gynnwys anghyfreithlon, unrhyw fesurau rhagweithiol i'w ganfod, a sancsiynau a roddir ar ddefnyddwyr sy'n torri'r rheolau;
- A ydych chi'n ystyried, wrth baratoi'r dogfennau hyn, anghenion o ran hygyrchedd y gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr a'r bobl yr effeithir arnyn nhw, gan gynnwys plant, rhieni neu grwpiau â nodweddion penodol a allai eu rhoi mewn mwy o berygl o niwed o gynnwys y gwasanaeth;
- Tystiolaeth o'r broses, yr amser ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â datblygu'r telerau hyn; ac
- A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth ynglŷn â'r ffordd mae defnyddwyr yn ymgysylltu â'ch telerau gwasanaeth, neu a ydyn nhw'n deall beth mae'n ei olygu'n ymarferol.

Adrodd a chwynion

A1.12 O dan gymalau 17 a 27 y Mesur, bydd yn rhaid i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio roi systemau ar waith sy'n caniatáu i ddefnyddwyr a phobl yr effeithir arnyn nhw **adrodd** yn hawdd am gynnwys sy'n anghyfreithlon yn eu barn nhw.

- A1.13 O dan gymalau 18 a 28, bydd yn rhaid i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio roi **gweithdrefnau cwyno** ar waith hefyd fel bod modd i ddefnyddwyr a phobl yr effeithir arnyn nhw gwyno am gynnwys sy'n anghyfreithlon yn eu barn nhw; neu os ydyn nhw'n credu nad yw'r darparwr yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau, neu fod eu cynnwys wedi'i ddileu neu fod y gallu i ddefnyddio'r gwasanaeth wedi cael ei gyfyngu'n ormodol.

Ar gyfer pawb sy'n ymateb

C7. Beth all darparwyr gwasanaethau ar-lein ei wneud i wella tryloywder, hygrychedd, hwylustod ac ymwybyddiaeth defnyddwyr o'u mecanweithiau adrodd a chwyno?

Cyflwynwch dystiolaeth i ddangos pa nodweddion sy'n gwneud y systemau adrodd a chwyno i ddefnyddwyr yn effeithiol, gan ystyried y canlynol:

- Llwybrau adrodd neu gwyno ar gyfer defnyddwyr cofrestredig;
- Llwybrau adrodd neu gwyno ar gyfer defnyddwyr nad ydynt wedi cofrestru; a
- Llwybrau adrodd ar gyfer plant ac oedolion.

Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

C8. Os oes gan eich gwasanaeth fecanweithiau *adrodd neu fflagio* ar waith ar gyfer cynnwys anghyfreithlon, neu ddefnyddwyr sy'n postio cynnwys anghyfreithlon, sut mae'r prosesau hyn yn cael eu cynllunio a'u cynnal?

Mae gennym ddiddordeb mewn cael tystiolaeth o'r canlynol:

- sut mae defnyddwyr yn rhoi gwybod am gynnwys ar eich gwasanaeth (gan gynnwys lleoliad ac amlygrwydd y mecanweithiau i ddefnyddwyr, ac unrhyw gipluniau y gallech eu darparu) ac a yw hyn ar wahân i'ch trefn gwyno;
- a oes angen i ddefnyddwyr greu cyfrifon i gael mynediad at y mecanweithiau adrodd a fflagio;
- pa fath o gynnwys neu ymddygiad y gall defnyddwyr a'r rhai sydd ddim yn defnyddio'r gwasanaeth ei fflagio neu adrodd amdano, gan gynnwys unrhyw restrau neu gategorïau penodol;
- y dewisiadau a'r ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â chynllunio'r mecanweithiau hyn;
- sut rydych chi'n sicrhau bod y dulliau adrodd a fflagio yn hawdd eu defnyddio ac yn hygrych;
- pa un a oes ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i anghenion plant, gan gynnwys plant o wahanol oedrannau;
- pa un a oes ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i anghenion gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr, gan gynnwys defnyddwyr â nodweddion penodol a allai eu rhoi mewn mwy o berygl o niwed o gynnwys y gwasanaeth (os felly, pa grwpiau defnyddwyr ydych chi wedi'u hystyried);
- y gost sydd ynghlwm wrth gynllunio a chynnal y mecanweithiau hyn;
- pa un a yw eich mecanweithiau adrodd a fflagio yn effeithiol, o ran adnabod cynnwys anghyfreithlon, a sut rydych chi'n penderfynu hyn; a
- pa un a ydych chi'n defnyddio fflagwyr dibynadwy (ac a yw eu hadroddiadau'n cael eu trin yn wahanol).

C9. Os oes gan eich gwasanaeth fecanwaith cwyno ar waith, sut mae'r prosesau hyn yn cael eu cynllunio a'u cynnal?

Mae gennym ddiddordeb mewn cael tystiolaeth o'r canlynol:

- sut gall defnyddwyr gwyno am gynnwys ar eich gwasanaeth (gan gynnwys unrhyw gipluniau y gallech eu darparu) ac a oes unrhyw drefn ar wahân i'ch mecanweithiau adrodd uchod;
- y math o gŵyn y gellir ei gwneud, gan gynnwys unrhyw gategoriâu neu restrau (gan gynnwys os defnyddir yr un categorïau ar gyfer cwynion);
- a oes modd cwyno mewn achosion pan fydd cynnwys yn cael ei ddadflaenoriaethu neu'n cael ei dynnu i lawr yn rhagweithiol gan dechnoleg, neu am faterion rhyddid mynegiant a phreifatrwydd;
- pwy sy'n cael cwyno;
- pa un a oes gweithdrefnau gwahanol ar gyfer categorïau o ddefnyddwyr gwahanol, gan gynnwys plant neu bobl sy'n creu cynnwys o'i gymharu â phobl yr effeithir arnyn nhw;
- y dewisiadau a'r ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â chynllunio eich trefn gwyno;
- y gost sydd ynghlwm wrth gynllunio a chynnal y broses hon;
- pa un a oes cofnod o'r cwynion yn cael ei gadw, ac os felly, beth ydy hwnnw; ac
- unrhyw brosesau apelio os nad yw'r achwynwyr yn fodlon â chanlyniad y gŵyn, pryd y gellir cael gafael ar y rhain, sut maen nhw'n gweithio, ac a ydyn nhw'n annibynnol ar y prosesau cwyno.

C10. Pa gamau mae eich gwasanaeth yn eu cymryd mewn ymateb i adroddiadau neu gwynion?

Mae gennym ddiddordeb mewn cael tystiolaeth o'r canlynol:

- unrhyw amrywiad yn nifer yr adroddiadau neu'r cwynion a'r gallu i weithredu arnyn nhw (h.y. y gyfran sy'n arwain at dynnu i lawr neu gamau eraill mewn ymateb) ar draws y math o niwed;
- pa gyfran o adroddiadau sy'n cael ystyriaeth, a pha gyfran y gweithredir arni;
- pa gyfran o gwynion sy'n cael ystyriaeth, a pha gyfran y gweithredir arni;
- pa un a yw unrhyw adroddiadau neu gwynion yn cael eu cyflymu neu eu cyfeirio at dimau arbenigol, y meini prawf ar gyfer hyn, a'r gost sy'n gysylltiedig â hwyluso hyn;
- os bydd defnyddwyr yn dod o hyd i gynnwys anghyfreithlon, pa un a hysbysir cyrff gorfodi'r gyfraith neu drydydd partïon eraill;
- sut mae dilysrwydd adroddiadau'n cael ei flaenoriaethu a'i asesu, gan gynnwys sut mae adroddiadau maleisus yn cael eu canfod, eu trin a/neu eu lliniaru;
- sut mae defnyddwyr a chrewyr cynnwys yn cael gwybod a oes unrhyw gamau wedi'u cymryd, beth yw'r camau hynny, a pham, o ganlyniad i ddeunydd y maen nhw neu eraill wedi'i adrodd neu ei fflagio;
- beth sy'n digwydd i'r cynnwys tra bydd yn cael ei asesu/prosesu; ac
- unrhyw amserlenni mewnlol neu allanol neu ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gweithredu neu benderfynu ar adroddiadau neu gwynion.

Safoni

- A1.14 O dan eu dyletswyddau a nodir yn Rhan 3 o'r Bil, bydd yn ofynnol i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio wneud y canlynol: defnyddio mesurau cymesur (gan gyfeirio at ganfyddiadau'r asesiad risg diweddaraf a maint a chapasiti'r darparwr gwasanaethau) i liniaru a rheoli risgiau o niwed i unigolion yn effeithiol; darparu'r gwasanaeth gan ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur i atal neu leihau'r risg i unigolion o ddod ar draws cynnwys penodol; ac, ar gyfer gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr, dileu cynnwys anghyfreithlon pan fyddan nhw'n dod yn ymwybodol ohono. Mae hyn yn cynnwys safoni cynnwys.

Ar gyfer pawb sy'n ymateb

C11. A oes modd gwneud gwelliannau i'r trefniadau safoni cynnwys er mwyn diogelu defnyddwyr yn well, heb gyfyngu'n ormodol ar eu gweithgarwch? Os oes, beth?

Darparwch dystiolaeth berthnasol i esbonio eich ymateb i'r cwestiwn hwn. Ystyriwch welliannau o ran diogelwch defnyddwyr a hawliau defnyddwyr, yn ogystal ag unrhyw ystyriaethau perthnasol sy'n ymwneud â chostau posibl neu sbardunau cost.

Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

C12. Pa systemau safoni awtomatig sydd gennych chi ar waith yng nghyswllt cynnwys anghyfreithlon?

Yn benodol, ystyriwch y canlynol:

- Ydych chi'n defnyddio dulliau cyfateb hashnodau i ganfod unrhyw fathau o gynnwys anghyfreithlon sy'n hysbys?
- Ydych chi'n defnyddio unrhyw dechnegau awtomatig eraill i ganfod unrhyw fathau o gynnwys anghyfreithlon?
- Os ydych chi'n defnyddio technegau awtomatig mewnol, sut mae'r rhain yn cael eu datblygu a'u hyfforddi? Pa ddata hyfforddi a ddefnyddiwyd a sut y cafwyd gafael arno?
- Ydych chi'n defnyddio unrhyw ddarparwyr neu setiau data trydydd parti ac, os felly, pa rai?
- Os ydych chi'n defnyddio darparwr trydydd parti, oeddech chi'n teimlo bod dewis yn y farchnad? Pam y gwnaethoch chi ddewis y darparwr hwn?
- Beth sy'n digwydd i gynnwys ar ôl iddo gael ei adnabod drwy ddulliau awtomatig?
- A allwch chi ddarparu unrhyw dystiolaeth sy'n dangos pa mor effeithiol yw'r technegau hyn o ran lleihau niwed i ddefnyddwyr, a sut y gall hyn amrywio yn ôl niwed?
- Sut ydych chi'n asesu perfformiad (gan gynnwys cyfraddau tynnu deunydd i lawr ar gam, tra-chywired a galw yn ôl) y technegau safoni awtomatig?
- Pa fesurau diogelu sy'n cael eu defnyddio i ddiogelu preifatrwydd defnyddwyr a/neu osgoi tynnu deunydd i lawr?
- A oes rhai mathau o dechnegau awtomatig sydd â chryfderau dros rai eraill, neu sy'n fwy addas ar gyfer rhai mathau o gynnwys neu niwed dros rai eraill?
- Beth yw'r rhwystrau a'r costau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r technegau hyn?

C13. Sut ydych chi'n defnyddio safonwyr dynol i adnabod ac asesu cynnwys anghyfreithlon?

Yn benodol, ystyriwch y canlynol:

- Sut ydych chi'n pennu lefel y safoni dynol sydd ei angen ar eich llwyfan, gan gynnwys yn ôl y math o gynnwys?
- A yw safonwyr yn cael eu cyflogi gan y gwasanaeth, yn cael eu darparu'n allanol, neu'n cynnwys gwirfoddolwyr?
- A yw safonwyr yn cael eu harchwilio, a sut?
- Pa ddarpariaeth a geir gan y safonwyr (e.e. ar benwythnosau neu dros nos, amser y DU)?
- Pa hyfforddiant a chefnogaeth a roddir i safonwyr? Er enghraifft, ydy rhai safonwyr yn arbenigo mewn rhai mathau o niwed neu faterion lleferydd? A yw'r hyfforddiant yn cael ei ddiweddarau, a phryd? Ydy'r safonwyr yn cael eu hyfforddi i adnabod cynnwys anghyfreithlon?
- Os ydych chi'n defnyddio dulliau safoni awtomatig, sut mae safonwyr dynol a systemau awtomatig yn gweithio gyda'i gilydd, a beth yw eu graddfa gymharol? Sut rydych chi'n gwyllo rhag rhagfarn yn y system awtomatig?
- Beth yw'r costau sydd ynghlwm wrth yr arferion hyn? Yn absenoldeb costau penodol, rhowch syniad o sbardunau cost (e.e. lleoliad safonwyr) a ffigurau perthnasol eraill (e.e. nifer y safonwyr a gyflogir, faint o eitemau mae'r llwyfan yn eu safoni bob dydd).
- Sut ydych chi'n asesu cywirdeb a chysondeb timau safoni dynol?

Gweithredu ar gynnwys a rhoi sancsiynau ar ddefnyddwyr

- A1.15 Yn ogystal â safoni cynnwys, mae'r dyletswyddau a nodir ym mharagraff A1.14 yn cwmpasu tynnu cynnwys i lawr a pholisïau ar fynediad defnyddwyr i'r gwasanaeth, neu gynnwys penodol sydd ar y gwasanaeth.

Ar gyfer pawb sy'n ymateb

C14. Sut mae darparwyr gwasanaethau ar-lein yn gosod sancsiynau neu gyfyngiadau ar fynediad (gan gynnwys at y gwasanaeth ac at gynnwys penodol)?

Rhowch dystiolaeth ynglŷn â'r defnydd o sancsiynau/cyfyngiadau a'u cywirdeb, a'r mesurau diogelu y dylid eu rhoi ar waith yn eich tyb chi i ddiogelu preifatrwydd defnyddwyr ac i atal sancsiynau heb gyfiawnhad.

Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

C15. Ym mha achosion mae cynnwys anghyfreithlon yn cael ei ddileu o'ch gwasanaeth?

Amlinellwch yr amgylchiadau lle mae cynnwys anghyfreithlon yn cael ei dynnu a sut y gallai hyn amrywio yn ôl y math o gynnwys anghyfreithlon.

C16. Ydych chi'n defnyddio unrhyw offer eraill i wneud y cynnwys anghyfreithlon yn llai amlwg ac i leihau ei effaith?

Dylech ystyried darparu'r wybodaeth ganlynol:

- o dan ba amgylchiadau y gweithredir ar gynnwys, a sut;
- a yw'r offer yn cael ei nodi yn nhelerau neu bolisiau defnyddwyr cyhoeddus;
- tystiolaeth i ddangos a yw eich defnyddwyr yn deall bod yr offer dan sylw yn bodoli ac yn cael eu defnyddio;
- pa fesurau diogelu rydych chi'n eu defnyddio i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn deg;
- tystiolaeth o gostau datblygu a chynnal yr offer dan sylw; a
- thystiolaeth o effeithiolrwydd yr offer o ran lleihau niwed.

C17. Pa sancsiynau neu rwystrau eraill rydych chi'n eu defnyddio yn erbyn defnyddwyr sy'n postio cynnwys anghyfreithlon?

Amlinellwch y canlynol:

- Pa fath o sancsiynau rydych chi'n eu defnyddio, ac ym mha achosion?
- Ydych chi'n cymryd camau i atal defnyddwyr sydd wedi cael eu gwahardd rhag defnyddio gwasanaeth rhag dychwelyd ac, os felly, beth yw'r camau hynny? Beth yw'r costau sydd ynghlwm wrth hyn?
- A yw defnyddwyr yn cael gwybod am sancsiynau ac, os felly, sut?
- Pa dystiolaeth allech chi ei darparu o'u heffeithiolrwydd, o ran lleihau niwed?
- Pa fesurau diogelu rydych chi'n eu defnyddio i sicrhau bod sancsiynau ar ddefnyddwyr yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn deg?

Dylunio a gweithredu'r gwasanaeth, gan gynnwys swyddogaethau ac algorithmau

- A1.16 Mae'r dyletswyddau a nodir ym mharagraff A1.14 hefyd yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud â chynllunio swyddogaethau, algorithmau a nodweddion eraill y gwasanaeth, a darparu mesurau i gynorthwyo defnyddwyr.
- A1.17 Mae gennym ddiddordeb mewn deall agwedd gwasanaethau tuag at ddylunio fel ffordd o liniaru niwed, gan gynnwys sut mae diogelwch yn cael ei ystyried wrth ddylunio cynnyrch a swyddogaethau. Mae'r Mesur Diogelwch Ar-lein yn rhoi nifer o enghreifftiau o 'swyddogaethau'; ar gyfer gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr, mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, gallu defnyddiwr i gael proffil dienw, i hoffi neu beidio â hoffi cynnwys, i rannu gwybodaeth am leoliad gyda defnyddwyr eraill, ac i anfon cynnwys ymlaen at ddefnyddwyr eraill. Enghraifft o swyddogaeth ar wasanaeth chwilio yw awto-gwblhau, lle bydd y peiriant chwilio yn rhagweld gweddill yr ymholiad y mae'r defnyddiwr wedi dechrau'i deipio.
- A1.18 Mae gennym ddiddordeb mewn clywed am agweddau ar ddyluniad y gellid eu hystyried fel rhai sy'n atal niwed; gallai hyn gynnwys darparu nodweddion newydd i ddefnyddwyr (e.e. caniatáu rheolaeth dros yr hyn maen nhw'n dod ar ei draws), neu gyfyngu ar swyddogaethau (e.e. cyfyngu ar y gallu i ganfod).

Ar gyfer pawb sy'n ymateb

C18. A oes unrhyw swyddogaethau neu nodweddion dylunio y mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai atal niwed yn effeithiol, ac y gallai neu y dylai'r diwydiant eu defnyddio'n ehangach?

Darparwch dystiolaeth berthnasol i esbonio eich ymateb i'r cwestiwn hwn.

Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

C19. I ba raddau mae eich gwasanaeth yn cynnwys swyddogaethau neu nodweddion sydd wedi'u cynllunio i liniaru risg neu effaith niwed o gynnwys anghyfreithlon?

Yn benodol:

- Allwch chi nodi unrhyw swyddogaethau neu nodweddion ar eich llwyfan sy'n gallu atal niwed yn effeithiol yn eich barn chi?
- Pa reolaeth sydd gan ddefnyddwyr dros yr hyn sy'n cael ei ddangos neu ei gyflwyno iddyn nhw?
- I ba raddau mae'r nodweddion neu'r swyddogaethau a nodwyd gennych yn dibynnu ar dechnoleg arall – er enghraifft, dulliau dilysu oedran neu ID?
- Pa gostau neu sbardunau cost sy'n gysylltiedig â datblygu'r nodweddion neu'r swyddogaethau hyn?
- Ydy diogelwch yn cael ei ymgorffori yn y broses o ddylunio a datblygu'r cynnyrch? I ba raddau ydych chi'n ystyried tystiolaeth am ymddygiad defnyddwyr wrth ddatblygu nodweddion neu swyddogaethau sydd wedi'u bwriadu i wella diogelwch defnyddwyr?
- Sut ydych chi'n mesur hynny a pha dystiolaeth allwch chi ei darparu ynghylch effaith ac effeithiolrwydd y technegau hyn, o ran lleihau niwed i ddefnyddwyr?
- Sut ydych chi'n asesu effaith y technegau hyn ar breifatrwydd defnyddwyr ac yn lleihau'r risg o gyfyngu'n ormodol?

C20. Sut ydych chi'n helpu i sicrhau diogelwch a lles eich defnyddwyr o ran cynnwys anghyfreithlon?

Yn benodol:

- Ydych chi'n darparu cymorth drwy eich llwyfan (e.e. cyfeirio at adnoddau)?
- Ydych chi'n darparu cymorth oddi ar y llwyfan (e.e. ariannu neu hwyluso rhaglenni)?
- Pa mor effeithiol yw'r mathau hyn o ymyriadau, o ran lleihau niwed ac effaith cynnwys anghyfreithlon ar ddefnyddwyr? Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ddangos hynny?
- Beth yw'r costau sydd ynghlwm wrth roi'r mesurau cymorth rydych chi wedi'u disgrifio ar waith?

C21. Sut ydych chi'n lliniaru unrhyw risgiau sy'n codi yn sgil dyluniad algorithmau sy'n cefnogi swyddogaeth eich gwasanaeth (e.e. peiriannau chwilio, neu systemau cymdeithasol ac argymell cynnwys), gan gyfeirio at gynnwys anghyfreithlon yn benodol?

Yn benodol:

- Os yw'n wahanol i'ch proses asesu risg a amlinellir mewn ymateb i C3, sut ydych chi'n asesu'r risg o algorithmau sy'n ganolog i swyddogaeth eich gwasanaeth?
- Pa fesurau diogelwch sydd gennych chi ar waith i liniaru'r risgiau a berir gan algorithmau (e.e. eu profi cyn dechrau eu defnyddio, a monitro eu perfformiad mewn sefyllfaedd go iawn)?
- Beth yw'r costau sydd ynghlwm wrth roi'r mesurau diogelu hyn ar waith? Os nad oes costau penodol, rhowch syniad o'r prif sbardunau cost.
- Sut ydych chi'n mesur effeithiolrwydd y mesurau diogelu hyn, o ran lleihau niwed i ddefnyddwyr?
- Pa wybodaeth allwch chi ei darparu i ddangos effeithiolrwydd mesurau diogelu o'r fath?
- Sut ydych chi'n asesu effaith y mesurau diogelwch hyn ar breifatrwydd defnyddwyr ac yn lleihau'r risg o gyfyngu'n ormodol?

Amddiffyn plant

- A1.19 Gall defnyddio dulliau sicrhau neu ddilysu oedran fod yn un ffordd y gallai darparwyr geisio cyflawni eu dyletswyddau o ran cynnwys anghyfreithlon, a amlinellir ym mharagraff A1.14 uchod, yn enwedig mewn perthynas â cham-drin a chamfanteisio ar blant, fel cynnwys sy'n ymwneud â hudod.
- A1.20 Bydd yn ofynnol i bob gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio gynnal asesiad mynediad plant er mwyn penderfynu a yw'n debygol y bydd plant yn cael mynediad at y gwasanaethau (Rhan 3, Pennod 4 y Bil), a ddiffinnir fel unrhyw un o dan 18 oed. Mae'r Mesur yn datgan mai'r unig ffordd y gall darparwyr ddod i'r casgliad nad yw'n bosibl i blant gael mynediad at wasanaeth, neu ran ohono, yw os oes systemau neu brosesau ar waith – er enghraifft, prosesau dilysu oedran, neu ffordd arall o sicrhau oedran – sy'n sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu cael mynediad at wasanaeth neu ran ohono.
- A1.21 Os yw'n debygol y bydd plant yn cael mynediad at wasanaeth, neu ran o wasanaeth, bydd angen cynnal asesiad risg plant a chydymffurfio â'r dyletswyddau i amddiffyn diogelwch plant ar-lein (cymalau 10, 11, 25 a 26 y Bil). Mae Rhan 5 y Mesur yn nodi'r ddyletswydd ar wahân ar wasanaethau ar-lein o fewn y cwmpas sy'n ymwneud â chynnwys pornograffig 'darparwyr' neu ddeunydd nad yw'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr. Rhaid i wasanaethau sy'n rhoi lle i gynnwys o'r fath sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu cael mynediad at gynnwys pornograffig (er enghraifft, drwy ddefnyddio offer dilysu oedran). Fel yr esboniwyd ar ein map, ar hyn o bryd nid ydym yn rhagweld y byddwn yn ymgynghori ar y gofynion hyn tan yn ddiweddarach, ar ôl i'r is-ddeddfwriaeth berthnasol gael ei gwneud,

ond hoffem glywed eich barn ynghylch a fyddai'r defnydd o brosesau dilysu/sicrhau oedran yn amrywio mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn o'i gymharu â chynnwys anghyfreithlon.

Ar gyfer pawb sy'n ymateb

C22. Pa dechnolegau sicrhau a dilysu oedran sydd ar gael i lwyfannau, a beth yw effaith a chost eu defnyddio?

Yn benodol, darparwch dystiolaeth yn esbonio:

- sut gellir asesu'r technolegau hyn o ran eu heffeithiolrwydd neu eu heffaith ar ddiogelwch defnyddwyr;
- pa mor gywir yw'r offer hyn o ran dilysu oedran defnyddwyr, a pha mor effeithiol ydyn nhw o ran atal plant rhag cael mynediad at gynnwys niweidiol;
- y camau y gellir eu cymryd i liniaru unrhyw risg o ragfarn neu waharddiad a allai ddeillio o'r offer sicrhau neu ddilysu oedran;
- y costau sy'n gysylltiedig â defnyddio technolegau o'r fath; a'r
- mesurau diogelu sy'n angenrheidiol i sicrhau y diogelir preifatrwydd defnyddwyr a mynediad at wybodaeth, ac yr osgoir cyfyngu'n ormodol.

C23. Allwch chi nodi ffactorau a allai awgrymu bod gwasanaeth yn debygol o ddenu defnyddwyr sy'n blant?

Ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein

C24. Ydy eich gwasanaeth yn defnyddio unrhyw offer sicrhau neu ddilysu oedran, neu dechnolegau cysylltiedig, i wirio neu amcangyfrif oedran defnyddwyr?

Yn benodol, darparwch wybodaeth yn esbonio:

- natur yr offer sicrhau neu ddilysu oedran sydd gennych chi ar waith, gan gynnwys a ydych chi'n defnyddio darparwyr trydydd parti;
- y costau sy'n gysylltiedig â defnyddio technolegau o'r fath;
- pa mor gywir yw'r offer hyn o ran dilysu oedran defnyddwyr, a pha mor effeithiol ydyn nhw o ran atal plant rhag cael mynediad at gynnwys niweidiol;
- sut mae eich polisiau sicrhau oedran wedi cael eu datblygu a pha grŵp(iau) oedran y bwriedir iddynt eu diogelu;
- pa fath o gynnwys/gweithgarwch y bwriedir i'ch polisiau a'ch mecanweithiau sicrhau oedran amddiffyn plant rhagddyn nhw;
- os yw'r gwasanaeth wedi'i deilwra i fodloni anghenion sy'n briodol i oedran (er enghraifft, drwy gyfyngu cynnwys penodol i ddefnyddwyr penodol), sut mae hyn yn gweithio;
- y camau rydych chi'n eu cymryd i liniaru unrhyw risg o ragfarn neu waharddiad a allai ddeillio o'r offer sicrhau neu ddilysu oedran sydd gennych ar waith; ac
- unrhyw fesurau diogelu sydd ar waith i sicrhau y diogelir preifatrwydd defnyddwyr a mynediad at wybodaeth, ac yr osgoir cyfyngu'n ormodol.

C25. Os nad oes modd i blant gael mynediad at eich gwasanaeth, neu ran ohono, sut ydych chi'n sicrhau hynny?

C26. Pa wybodaeth sydd gennych chi ynglŷn ag oedran eich defnyddwyr?

Ydych chi'n casglu, neu'n rhannu gydag unrhyw drydydd partion (ac os felly pa rai), unrhyw wybodaeth a all helpu i amcangyfrif oedran defnyddiwr, naill ai pan fydd defnyddiwr yn defnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf neu wedi hynny? Os felly, sut ydych chi'n gwneud hyn, a pham?

Tryloywder

A1.22 O dan Ran 4, Pennod 3 y Mesur, bydd yn rhaid i rai llwyfannau gyhoeddi adroddiadau tryloywder blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth a nodir gan Ofcom ar gyfer pob darparwr. Hefyd, bydd yn rhaid i Ofcom gyhoeddi adroddiadau tryloywder sy'n seiliedig ar adroddiadau tryloywder llwyfannau, ei ymchwil ei hun, ac ymchwil trydydd parti. Mae gan Ofcom ddiddordeb mewn clywed gan yr ystod lawn o randdeiliaid ynghylch pa wybodaeth

a fyddai'n fwyaf defnyddiol i'w chynnwys yn adroddiadau tryloywder llwyfannau, adroddiadau tryloywder Ofcom ei hun, ac adroddiad Ofcom am fynediad ymchwilwyr.⁶

Ar gyfer pawb sy'n ymateb

C27. At ddibenion tryloywder, pa fath o wybodaeth sy'n ddefnyddiol/ddim yn ddefnyddiol? Pam?

Yn benodol, ystyriwch y canlynol:

- Unrhyw dystiolaeth o wybodaeth gyhoeddus sy'n effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar ddiogelwch neu ymddygiad defnyddwyr ar-lein, sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio, a gan bwy;
- Pa wybodaeth y dylai llwyfannau ei darparu, gan ystyried amlder, fformat a chynulleidfaoedd arfaethedig;
- Pa wybodaeth y dylai Ofcom ei darparu drwy ei adroddiad tryloywder, gan ystyried amlder, fformat, cynulleidfaoedd arfaethedig ac achosion o ddefnydd posibl gan randdeiliaid allanol;
- Manteision a/neu anfanteision gwybodaeth a metrigau safonol; ac
- Unrhyw effeithiau negyddol neu ganlyniadau anfwriadol posibl yn sgil cyhoeddi mathau penodol o wybodaeth, a sut y gellir lliniaru'r rhain.

Arall

Ar gyfer pawb sy'n ymateb

C28. Ar wahân i'r rhai yn y ddogfen hon, ydych chi'n ymwybodol o fesurau eraill sydd ar gael i liniaru risg a niwed o gynnwys anghyfreithlon? Byddai gennym ddiddordeb mewn unrhyw dystiolaeth y gallwch ei darparu am effeithiolrwydd y mesurau hynny o ran lleihau niwed i ddefnyddwyr, y gost a'r effaith ar hawliau defnyddwyr a phrofiad defnyddwyr.

⁶ Mae Atodlen 8 y Mesur yn nodi'r materion a allai gael eu cynnwys yn adroddiadau tryloywder y llwyfannau.

A2. Troseddau â blaenoriaeth

A2.1 Er hwylustod, rydym wedi rhestru isod y troseddau â blaenoriaeth a amlinellir yn Atodlenni 5, 6 a 7 y [Mesur Diogelwch Ar-lein](#), dyddiedig 28 Mehefin 2022.

Atodlen 5, troseddau terfysgaeth

A2.2 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Terfysgaeth 2000—

- a) adran 11 (aelodaeth o gorff gwaharddedig);
- b) adran 12(1) (ennyn cefnogaeth ar gyfer corff gwaharddedig);
- c) adran 12(1A) (mynegi barn neu gred i gefnogi corff gwaharddedig);
- d) adran 12(2) (trefnu cyfarfod i gefnogi corff gwaharddedig);
- e) adran 13(1A) (cyhoeddi llun o wisg corff gwaharddedig);
- f) adran 15 (codi arian i derfysgwyr);
- g) adran 16(1) (defnyddio arian neu eiddo at ddibenion terfysgol);
- h) adran 16(2) (meddu ar arian neu eiddo at ddibenion terfysgol);
- i) adran 17 (cymryd rhan mewn trefniadau ariannu terfysgaeth);
- j) adran 18 (gwyngalchu eiddo terfysgwyr);
- k) adran 54(1) (darparu hyfforddiant arfau);
- l) adran 54(3) (gwahodd rhywun arall i dderbyn hyfforddiant arfau);
- m) adran 56 (rheoli sefydliad terfysgol);
- n) adran 58 (casglu gwybodaeth sy'n debygol o fod o ddefnydd i derfysgwr);
- o) adran 58A (cyhoeddi gwybodaeth am aelodau o'r lluoedd arfog ac ati);
- p) adrannau 59 i 61 (cymell terfysgaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig).

A2.3 Trosedd o dan adran 113 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001 (defnyddio sylweddau neu bethau gwenwynig).

A2.4 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Terfysgaeth 2006—

- a) adran 1 (annog terfysgaeth);
- b) adran 2 (lledaenu cyhoeddiadau terfysgwyr);
- c) adran 5 (paratoi gweithredoedd terfysgol);
- d) adran 6 (hyfforddiant ar gyfer terfysgaeth);
- e) adran 11 (bygythiadau terfysgol sy'n ymwneud â dyfeisiau ymbelydrol ac ati).

Troseddau anghyflawn

- A2.5 Trosedd o geisio neu gynllwynio i gyflawni trosedd sydd wedi'i nodi uchod.
- A2.6 Trosedd o dan Ran 2 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007 (annog neu gynorthwyo) mewn perthynas â throsedd a nodir uchod, neu (yn yr Alban) gymell rhywun i gyflawni trosedd o'r fath.
- A2.7 Trosedd o helpu, annog, cwmsela neu gaffael cyflawni trosedd sydd wedi'i nodi uchod, neu (yn yr Alban) cyfrannu at gyflawni trosedd o'r fath.

Atodlen 6, troseddau cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant

Cymru a Lloegr, a Gogledd Iwerddon

- A2.8 Trosedd o dan adran 2 o Ddeddf Cyhoeddiadau Anllad 1959 sy'n ymwneud ag erthygl anllad sy'n tueddu i lygru eraill drwy eu hannog i gyflawni trosedd a nodir ym mharagraffau A2.9, A2.11, A2.12, A2.14 ac A2.15.
- A2.9 Trosedd o dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1978 (Iluniau anwedus o blant).
- A2.10 Trosedd o dan Erthygl 3 o Orchymyn Amddiffyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1978 (S.I. 1978/1047 (N.I. 17)) (Iluniau anwedus o blant).
- A2.11 Trosedd o dan adran 160 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (meddu ar lun anwedus o blentyn).
- A2.12 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003—
 - a) adran 8 (achosi neu gymell plentyn dan 13 oed i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol);
 - b) adran 10 (achosi neu gymell plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol);
 - c) adran 11 (cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol ym mhresenoldeb plentyn);
 - d) adran 12 (achosi plentyn i wyllo gweithred rywiol);
 - e) adran 13 (troseddau rhywiol yn erbyn plentyn yn cael eu cyflawni gan blant neu bobl ifanc);
 - f) adran 14 (trefnu neu hwyluso cyflawni trosedd rhywiol yn erbyn plentyn);
 - g) adran 15 (cwrdd â phlentyn yn dilyn hudo rhywiol ac ati);
 - h) adran 15A (cyfathrebu'n rhywiol â phlentyn);
 - i) adran 47 (talw am wasanaethau rhywiol plentyn);
 - j) adran 48 (achosi neu gymell camfanteisio'n rhywiol ar blentyn);
 - k) adran 49 (rheoli plentyn yn gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol);
 - l) adran 50 (trefnu neu hwyluso camfanteisio'n rhywiol ar blentyn).

- A2.13 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Gorchymyn Troseddau Rhywiol (Gogledd Iwerddon) 2008 (S.I. 2008/1769 (N.I. 2))—
- a) Erthygl 15 (achosi neu gymell plentyn dan 13 oed i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol);
 - b) Erthygl 17 (achosi neu gymell plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol);
 - c) Erthygl 18 (cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol ym mhresenoldeb plentyn);
 - d) Erthygl 19 (achosi plentyn i wyllo gweithred rywiol);
 - e) Erthygl 20 (troseddau rhywiol yn erbyn plentyn yn cael eu cyflawni gan blant neu bobl ifanc);
 - f) Erthygl 21 (trefnu neu hwyluso cyflawni trosedd rhywiol yn erbyn plentyn);
 - g) Erthygl 22 (cwrdd â phlentyn yn dilyn hudo rhywiol ac ati);
 - h) Erthygl 22A (cyfathrebu'n rhywiol â phlentyn);
 - i) Erthygl 37 (talw am wasanaethau rhywiol plentyn);
 - j) Erthygl 38 (achosi neu gymell puteindra neu bornograffi plant);
 - k) Erthygl 39 (rheoli plentyn sy'n puteinio neu blentyn sy'n ymwneud â phornograffi);
 - l) Erthygl 40 (trefnu neu hwyluso puteindra neu bornograffi plant).
- A2.14 Trosedd o dan adran 62 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (meddu ar lun gwaharddedig o blentyn).
- A2.15 Trosedd o dan adran 69 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2015 (meddu ar lawlyfr pedoffeil).

Troseddau anghyflawn

- A2.16 Trosedd o geisio neu gynllwynio i gyflawni trosedd sydd wedi'i nodi ym mharagraffau A2.8 i A2.15.
- A2.17 Trosedd o dan Ran 2 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007 (annog neu gynorthwyo) mewn perthynas â throsedd a nodir ym mharagraffau A2.8 i A2.15.
- A2.18 Trosedd o helpu, annog, cwmsela neu gaffael cyflawni trosedd sydd wedi'i nodi ym mharagraffau A2.8 i A2.15.

Yr Alban

- A2.19 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Llywodraeth Ddinesig (Yr Alban) 1982—
- a) adran 52 (lluniau anwedus ac ati o blant);
 - b) adran 52A (meddu ar luniau anwedus o blant).
- A2.20 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Amddiffyn Plant ac Atal Troseddau Rhywiol (Yr Alban) 2005—

- a) adran 1 (cwrdd â phlentyn yn dilyn cyswllt rhagarweiniol penodol);
- b) adran 9 (talu am wasanaethau rhywiol plentyn);
- c) adran 10 (achosi neu gymell plentyn i ddarparu gwasanaethau rhywiol neu bornograffi plant);
- d) adran 11 (rheoli plentyn sy'n darparu gwasanaethau rhywiol neu'n ymwneud â phornograffi);
- e) adran 12 (trefnu neu hwyluso plentyn i ddarparu gwasanaethau rhywiol neu bornograffi plant).

A2.21 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Troseddau Rhywiol (Yr Alban) 2009—

- a) adran 21 (achosi plentyn ifanc i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol);
- b) adran 23 (achosi plentyn ifanc i edrych ar ddelwedd rywiol);
- c) adran 24 (cyfathrebu mewn ffordd anwedus â phlentyn ifanc ac ati);
- d) adran 31 (achosi plentyn hŷn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol);
- e) adran 33 (achosi plentyn hŷn i edrych ar ddelwedd rywiol);
- f) adran 34 (cyfathrebu mewn ffordd anwedus â phlentyn hŷn ac ati);
- g) adran 54 (cymell i gyflawni gweithredoedd rhywiol penodol y tu allan i'r Alban).

Troseddau anghyflawn

A2.22 Trosedd o geisio neu gynllwynio i gyflawni trosedd sydd wedi'i nodi ym mharagraffau A2.19 i A2.21.

A2.23 Trosedd o gymell rhywun i gyflawni trosedd sydd wedi'i nodi ym mharagraffau A2.19 i A2.21.

A2.24 Trosedd o helpu, annog, cwnsela neu gaffael cyflawni trosedd sydd wedi'i nodi ym mharagraffau A2.19 i A2.21, neu gyfrannu at gyflawni trosedd o'r fath.

Atodlen 7, troseddau â blaenoriaeth

Cynorthwyo hunanladdiad

A2.25 Trosedd o dan adran 2 o Ddeddf Hunanladdiad 1961 (cynorthwyo hunanladdiad ac ati).

A2.26 Trosedd o dan adran 13 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (Gogledd Iwerddon) 1966 (c. 20 (N.I.)) (cynorthwyo hunanladdiad ac ati).

Bygythiadau i ladd

A2.27 Trosedd o dan adran 16 o Ddeddf Troseddau Corfforol 1861 (bygythiadau i ladd).

Troseddau trefn gyhoeddus, aflonyddu, stelcio ac achosi ofn o drais neu gythruddo trais

- A2.28 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986—
- adran 4 (achosi ofn o drais neu gythruddo trais);
 - adran 4A (aflonyddwch, dychryn neu ofid bwriadol);
 - adran 5 (aflonyddwch, dychryn neu ofid);
- A2.29 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986—
- adran 18 (defnyddio geiriau neu ymddygiad neu arddangos deunydd ysgrifenedig);
 - adran 19 (cyhoeddi neu ddsbarthu deunydd ysgrifenedig);
 - adran 21 (dosbarthu, dangos neu chwarae recordiad);
 - adran 29B (defnyddio geiriau neu ymddygiad neu arddangos deunydd ysgrifenedig);
 - adran 29C (cyhoeddi neu ddsbarthu deunydd ysgrifenedig);
 - adran 29E (dosbarthu, dangos neu chwarae recordiad).
- A2.30 Trosedd o dan adran 50A o Ddeddf Cyfraith Droseddol (Cydgrynhoi) (Yr Alban) 1995 (aflonyddwch a waethygir gan ffactorau hiliol).
- A2.31 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997—
- adran 2 (aflonyddu);
 - adran 2A (stelcio);
 - adran 4 (peri i bobl ofni trais);
 - adran 4A (stelcio yn ymwneud ag ofni trais neu fraw neu drallod difrifol).
- A2.32 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Gorchymyn Gwarchod rhag Aflonyddu (Gogledd Iwerddon) 1997 (S.I. 1997/1180 (N.I. 9))—
- Erthygl 4 (aflonyddu);
 - Erthygl 6 (peri i bobl ofni trais).
- A2.33 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998—
- adran 31 (troseddau trefn gyhoeddus a waethygir gan ffactorau hiliol neu grefyddol);
 - adran 32 (aflonyddwch a waethygir gan ffactorau hiliol neu grefyddol ac ati).
- A2.34 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Thrwyddedu (Yr Alban) 2010 (asp 13)—
- adran 38 (ymddygiad bygythiol neu sarhaus);
 - adran 39 (stelcio).

Cyffuriau a sylweddau seicoweithredol

- A2.35 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971—
- a) adran 4(3) (cyflenwi anghyfreithlon, neu gynnig cyflenwi, cyffuriau rheoledig);
 - b) adran 9A (gwahardd cyflenwi ac ati eitemau i roi neu baratoi cyffuriau rheoledig);
 - c) adran 19 (cymell unrhyw drosedd arall o dan y Ddeddf honno).
- A2.36 Trosedd o dan adran 5 o Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol 2016 (cyflenwi, neu gynnig cyflenwi, sylwedd seicoweithredol).

Drylliau ac arfau eraill

- A2.37 Trosedd o dan adran 1(1) neu (2) o Ddeddf Cyfyngu Arfau Bygythiol 1959 (gwerthu ac ati gyllell glec ac ati).
- A2.38 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Drylliau Tanio 1968—
- a) adran 1(1) (prynu ac ati ddrylliau neu fwledi a chetris heb dystysgrif);
 - b) adran 2(1) (prynu ac ati wn tanio heb dystysgrif);
 - c) adran 3(1) (delio ac ati mewn drylliau neu fwledi a chetris ar ffurf masnach neu fusnes heb fod wedi cofrestru);
 - d) adran 3(2) (gwerthu ac ati ddrylliau neu fwledi a chetris i rywun heblaw deliwr cofrestredig);
 - e) adran 5(1), (1A) neu (2A) (prynu, gwerthu ac ati arfau gwaharddedig);
 - f) adran 21(5) (gwerthu ac ati ddrylliau neu fwledi a chetris i bobl a ddyfarnwyd yn euog o drosedd yn flaenorol);
 - g) adran 22(1) (prynu ac ati ddrylliau neu fwledi a chetris gan rywun o dan 18 oed);
 - h) adran 24 (rhoi drylliau i bobl ifanc dan oed);
 - i) adran 24A (rhoi drylliau ffug i bobl ifanc dan oed).
- A2.39 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Bwâu Croes 1987—
- a) adran 1 (gwerthu a gosod neu logi bwa croes);
 - b) adran 2 (prynu a llogi bwa croes).
- A2.40 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988—
- a) adran 141(1) neu (4) (gwerthu ac ati arfau bygythiol);
 - b) adran 141A (gwerthu cyllyll ac ati i bobl dan 18 oed).
- A2.41 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Gorchymyn Cyfiawnder Troseddol (Gogledd Iwerddon) 1996 (S.I. 1996/3160 (N.I. 24))—

- a) Erthygl 53 (gwerthu ac ati gyllyll);
 - b) Erthygl 54 (gwerthu ac ati gyllyll i bobl ifanc dan oed).
- A2.42 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Cyllyll 1997—
- a) adran 1 (marchnata cyllyll yn anghyfreithlon);
 - b) adran 2 (cyhoeddi deunydd mewn cysylltiad â marchnata cyllyll).
- A2.43 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Gorchymyn Drylliau Tanio (Gogledd Iwerddon) 2004 (S.I. 2004/702 (N.I. 3))—
- a) Erthygl 24 (gwerthu ac ati ddrylliau neu fwledi a chetris heb dystysgrif);
 - b) Erthygl 37(1) (gwerthu ac ati ddrylliau neu fwledi a chetris i rywun heb dystysgrif ac ati);
 - c) Erthygl 45(1) a (2) (prynu, gwerthu ac ati arfau gwaharddedig);
 - d) Erthygl 63(8) (gwerthu ac ati ddrylliau neu fwledi a chetris i bobl sydd wedi bod yn y carchar ac ati);
 - e) Erthygl 66A (rhoi drylliau ffug i bobl ifanc dan oed).
- A2.44 Trosedd o dan adran 36(1)(c) neu (d) o Ddeddf Gostwng Troseddau Treisgar 2006 (gwerthu ac ati ddrylliau ffug realistig).
- A2.45 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Arfau Aer a Thrwyddedu (Yr Alban) 2015 (asp 10)—
- a) adran 2 (gofyniad am dystysgrif arf aer);
 - b) adran 24 (cyfyngiadau ar werthu ac ati arfau aer).

Helpu mewnfudo anghyfreithlon

- A2.46 Trosedd o dan adran 25 o Ddeddf Mewnfudo 1971 (cynorthwyo mewnfudo anghyfreithlon ac ati).

Camfanteisio rhywiol

- A2.47 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003—
- a) adran 52 (achosi neu ysgogi puteindra am elw);
 - b) adran 53 (rheoli puteindra am elw).
- A2.48 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Gorchymyn Troseddau Rhywiol (Gogledd Iwerddon) 2008 (S.I. 2008/1769 (N.I. 2))—
- a) Erthygl 62 (achosi neu ysgogi puteindra am elw);
 - b) Erthygl 63 (rheoli puteindra am elw).

Delweddau rhywiol

- A2.49 Trosedd o dan adran 63 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (meddu ar ddelweddau pornograffig eithafol).
- A2.50 Trosedd o dan adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 (datgelu, neu fygwth datgelu, lluniau a ffilmiau rhywiol preifat gyda'r bwriad o achosi trallod).
- A2.51 Trosedd o dan adran 2 o Ddeddf Ymddygiad Camdriniol a Niwed Rhywiol (Yr Alban) 2016 (asp 22) (datgelu, neu fygwth datgelu, llun neu ffilm bersonol).

Elw troseddau

- A2.52 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Elw Troseddau 2002—
- adran 327 (cuddio ac ati eiddo troseddol);
 - adran 328 (trefniadau i hwyluso caffael ac ati eiddo troseddol);
 - adran 329 (caffael, defnyddio a meddu ar eiddo troseddol).

Twyll

- A2.53 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Twyll 2006—
- adran 2 (twyll drwy ymholiad anwir);
 - adran 4 (twyllo drwy gamddefnyddio safle);
 - adran 7 (gwneud neu gyflenwi eitemau i'w defnyddio mewn twyll);
 - adran 9 (cymryd rhan mewn busnes twyllodrus a gedwir gan unig fasnachwr ac ati).
- A2.54 Trosedd o dan adran 49(3) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Thrwyddedu (Yr Alban) 2010 (eitemau i'w defnyddio mewn twyll).

Gwasanaethau ariannol

- A2.55 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol 2000—
- adran 23 (mynd yn groes i waharddiad ar gyflawni gweithgaredd rheoledig oni bai ei fod wedi'i awdurdodi neu wedi'i eithrio);
 - adran 24 (honiadau ffug i fod wedi'i awdurdodi neu wedi'i eithrio);
 - adran 25 (mynd yn groes i gyfyngiadau ar hyrwyddo ariannol).
- A2.56 Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2012—
- adran 89 (datganiadau camarweiniol);
 - adran 90 (argraff gamarweiniol).

Troseddau anghyflawn

- A2.57 Trosedd o geisio neu gynllwynio i gyflawni trosedd sydd wedi'i nodi ym mharagraffau A2.25 i A2.56.
- A2.58 Trosedd o dan Ran 2 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007 (annog neu gynorthwyo) mewn perthynas â throsedd a nodir ym mharagraffau A2.25 i A2.56, neu (yn yr Alban) gymell rhywun i gyflawni trosedd o'r fath.
- A2.59 Trosedd o helpu, annog, cwnsela neu gaffael cyflawni trosedd sydd wedi'i nodi ym mharagraffau A2.25 i A2.56, neu (yn yr Alban) gyfrannu at gyflawni trosedd o'r fath.

A3. Ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth

Sut mae ymateb

- A3.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich ymatebion erbyn 5pm ar 13 Medi 2022.
- A3.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements> . Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.
- A3.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fydddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i OS-CFE@ofcom.org.uk fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r [ddalen gyflwyno](#). At ddibenion y cais am dystiolaeth hwn yn unig mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 13 Hydref 2022.
- A3.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:
- Online Safety Call for Evidence
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
- A3.5 Mae croeso i chi anfon eich ymateb yn Gymraeg ac ni fydd yn cael ei drin yn llai ffafriol nag ymateb Saesneg.
- A3.6 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain:
- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVDs; neu
 - gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.
- Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).
- A3.7 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymateb a gyflwynwyd i ni dros yr e-bost.
- A3.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn y cais am dystiolaeth os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.
- A3.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn [Atodiad 1](#) y ddogfen hon. Byddai hefyd o gymorth pe gallech egluro pam rydych yn coleddu'ch barn a darparu tystiolaeth ategol.

- A3.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn y ddogfen hon, cysylltwch â'r tîm Diogelwch Ar-lein drwy anfon neges e-bost i OS-CFE@ofcom.org.uk

Cyfrinachedd

- A3.11 Er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom.
- A3.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fydddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu'ch ymateb.
- A3.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw rhan o ymateb neu'r ymateb cyfan yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu, ond weithiau efallai y bydd angen i ni ddatgelu ymatebion i gyflawni rhai rhwymedigaethau cyfreithiol penodol (e.e. pan fydd yn gymesur ac yn deg gwneud hynny er mwyn galluogi ymgynghori'n briodol, neu os cawn orchymyn i'w datgelu).
- A3.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, gallwn rannu copi o'ch ymateb nad yw'n gyfrinachol ag adran berthnasol y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan. Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar gyfer materion post, a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar gyfer pob mater arall.
- A3.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein [Telerau Defnyddio](#). Edrychwch hefyd ar ein [Datganiad Preifatrwydd](#).

Y diweddaraaf am gyhoeddiadau Ofcom

- A3.16 Gallwch chi [gofrestru i gael diweddariadau post](#) i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

A4. Dalen gyflwyno ymateb

MANYLION SYLFAENOL

Teitl y cais am dystiolaeth: **Diogelwch Ar-lein**

At (swyddog cyswllt yn Ofcom): **Tîm Diogelwch Ar-lein, OS-CFE@ofcom.org.uk**

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? _____

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i Gais am Dystiolaeth Ofcom y gall Ofcom ei chyhoeddi yn ddarostyngedig i'r adran am gyfrinachedd uchod. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall efallai y bydd angen i Ofcom ddatgelu peth o'r wybodaeth sydd wedi'i marcio'n gyfrinachol pan fydd yn gymesur ac yn deg gwneud hynny er mwyn galluogi ymgynghori'n briodol, neu os bydd Ofcom yn cael gorchymyn i'w datgelu. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Nod Ofcom yw cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd; os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd y cyfnod ymateb wedi dod i ben, ticiwch yma.

Cais am dystiolaeth: Cam cyntaf rheoleiddio diogelwch ar-lein

Enw Llofnod (os darperir copi papur)